Heddlu Police
DYFED-POWYS

# Polisi Stelcio ac Aflonyddu

<table>
<tr><td>Crynodeb o'r polisi:</td><td colspan="4">Protocol ar y driniaeth briodol o droseddau stelcio neu aflonyddu rhwng Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron.</td></tr>
<tr><td>Rhif y polisi:</td><td colspan="4">017/2020</td></tr>
<tr><td>Rheoli fersiynau:</td><td colspan="4"><table>
<tr><td>Fersiwn</td><td>Dyddiad</td><td>Awdur</td><td>Rhesymwaith</td></tr>
<tr><td>1.1</td><td>Mehefin 2016</td><td>Y Ditectif Arolygydd Dros Dro [redacted]</td><td>Polisi Stelcio ac Aflonyddu newydd</td></tr>
<tr><td>2</td><td>Mehefin 2020</td><td>DI [redacted]</td><td>Diweddariad ar y polisi</td></tr>
</table></td></tr>
<tr><td>Dyddiad gweithredu:</td><td colspan="4">21/08/20</td></tr>
<tr><td>Dyddiad adolygu:</td><td colspan="4">21/08/22</td></tr>
<tr><td>Perchennog/cyswllt: (wedi'i gymeradwyo gan – y Bwrdd)</td><td colspan="4">Y Ganolfan Fregusrwydd</td></tr>
<tr><td>Ymgynghori a chymeradwyo</td><td colspan="4">Y Ditectif Brif Arolygydd [redacted]</td></tr>
<tr><td>Cyfieithiad Cymraeg</td><td>Oes</td><td>✓</td><td>Nac oes</td><td></td></tr>
</table>

# 1. Datganiad Polisi

Diben y polisi hwn yw darparu arweiniad gweithdrefnol yn unol â chanllawiau cenedlaethol ac arfer gorau er mwyn gosod safonau lleol wrth ymchwilio i droseddau Stelcio ac Aflonyddu hyd at y treial. Bydd polisi Heddlu Dyfed-Powys yn adlewyrchu'r "Protocol ar y driniaeth briodol o droseddau stelcio neu aflonyddu rhwng Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron" (GEG). Darperir canllawiau gweithredol yn y canllaw "Prosesau Heddlu Dyfed-Powys" ar fewnrwyd yr heddlu o dan y safle Diogelu Pobl Fregus.

O'r polisi hwn, dylai swyddogion fedru gwneud y canlynol:

- Cyflawni perfformiad gwell a chyson o ran adnabod achosion stelcio ac aflonyddu, ymchwilio iddynt a'u herlyn;
- Sicrhau ymateb cyfiawnder troseddol priodol tuag at stelcio neu aflonyddu;
- Sefydlu cyswllt cynnar ac effeithiol rhwng yr heddlu a GEG mewn achosion stelcio;
- Gwella'r gwasanaeth ar gyfer dioddefwyr stelcio neu aflonyddu;
- Cynyddu hyder y cyhoedd yn ehangach yng ngallu'r System Cyfiawnder Troseddol i ymdrin ag achosion stelcio neu aflonyddu; ac
- Adlewyrchu ar bolisi GEG ac Arferion Proffesiynol Awdurdodedig yr Heddlu.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl gategorïau gweithwyr Heddlu Dyfed-Powys (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny), boed yn staff llawn amser, rhan amser, parhaol, tymor penodol, dros dro (gan gynnwys staff asiantaeth, contractwyr a chymdeithion) neu staff ar secondiad. Dylai unrhyw weithiwr sy'n cael mynediad at asedau ac eiddo'r Heddlu ac sy'n eu defnyddio roi ystyriaeth ddyledus i gynnwys y polisi hwn.

# 2. Cwmpas y Polisi

Mae'r ymrwymiad i ddod â stelcio ac aflonyddu i ben wedi'i ymgorffori yn y strategaeth draws-lywodraethol Rhoi Terfyn ar Drais yn erbyn Menywod a Merched 2016-2020 (VAWG). Tanategir y strategaeth gan waith partneriaeth effeithiol ar lefel leol a chenedlaethol. Mae erlyniad llwyddiannus yr achosion hyn a diogelu'r dioddefwyr hynny'n dibynnu ar waith partneriaeth cryf a chydweithredol rhwng yr heddlu ac erlynyddion.

Mae'r ymagwedd VAWG yn cydnabod mai benywod yw dioddefwyr stelcio ar gyfartaledd. Mae'r ymagwedd yn cydnabod VAWG fel cam-driniaeth sylfaenol o hawliau dynol a hawliau menywod. Mae llywodraeth y DU wedi llofnodi a chadarnhau galwad y Cenhedloedd Unedig i bob talaith i atal ac ymateb i drais yn erbyn menywod. Mae'r heddlu a GEG wedi ymrwymo i bob dioddefydd trosedd o fewn y grŵp 'VAWG' ac i'r perwyl hwnnw, yn gynhwysol yn eu hymagwedd. Gweithredir pob polisi VAWG yn deg a chyfiawn i bob drwgdybyn a dioddefydd trosedd – waeth pa beth bynnag yw eu rhyw. Mae Datganiad Cyhoeddus GEG ar ddioddefwyr gwrywaidd yn berthnasol ar gyfer y Protocol hwn.

Mae gan Brif Gwnstabliaid gyfrifoldeb cyffredinol am ymchwilio i weithgarwch troseddol honedig yn eu hardal heddlu unigol.

GEG yw'r prif awdurdod erlyn sy'n ymdrin ag euogfarnau troseddol yng Nghymru a Lloegr. Mae GEG wedi ymrwymo'n llwyr i euogfarnu pawb sy'n aflonyddu neu'n stelcio yn deg ac effeithiol.

Mae diogelwch dioddefwyr yn hollbwysig. Mae methu ag adnabod stelcio neu aflonyddu ac ymdrin ag ymddygiad o'r fath cyn gynted â phosibl yn galluogi drwgdybiedigion i barhau i ymddwyn yn y fath modd. Gall hyn adael dioddefwyr yn agored i risg sy'n dwysau, gan gynnwys ymosodiad rhywiol a dynladdiad. Gan hynny, rhaid ystyried y peryglon i ddioddefwyr yn ofalus yn yr achosion hyn, nid yn unig mewn perthynas â'r perygl uniongyrchol i'r dioddefwyr gan y drwgdybiedigion, ond hefyd mewn perthynas ag unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r dioddefwyr, megis eu plant a'u dibynyddion, ffrindiau ac aelodau teulu.

# 3. Pwerau a Gofynion Cyfreithiol/Polisi

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r egwyddorion sy'n llywodraethu'r ymchwiliad a'r erlyniad o dan adrannau 2, 2A, 4 a 4A Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 ac mae'n cwmpasu pob math o aflonyddu a stelcio.

## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Mae Rhan 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi'r nodweddion gwarchodedig sy'n gymwys i'w diogelu dan y Ddeddf, sef: Oed; Anabledd; Ailbennu Rhywedd; Priodas a Phartneriaeth Sifil; Beichiogrwydd a Mamolaeth; Hil; Crefydd neu Gred; Rhywedd; Cyfeiriadedd Rhywiol.

Mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn gosod gofyniad cyfreithiol rhagweithiol ar gyrff cyhoeddus i roi ystyriaeth, wrth arfer eu swyddogaethau, i'r angen i:

- ddileu camwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sy'n anghyfreithlon dan y Ddeddf;
- hybu cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu;
- hybu perthynas dda rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu.

Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb yn berthnasol i'r holl nodweddion gwarchodedig ac eithrio Priodas a Phartneriaeth Sifil, ac yn yr achos hwnnw dim ond y ddyletswydd i ystyried yr angen i ddileu camwahaniaethu sy'n berthnasol.

Er mwyn cynnal **asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb** rhaid mynd ati'n systematig i asesu effeithiau tebygol neu wirioneddol polisi ar bobl o safbwynt yr holl nodweddion gwarchodedig a nodir uchod.

Dylid cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer pob polisi sy'n **berthnasol** i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae templed ar gyfer asesiad o effaith ar gydraddoldeb ar gael yma. Mae fersiwn Saesneg o'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb hefyd ar gael yma. Ceir canllawiau ar gyfer cwblhau'r templed ar dudalen fewnrwyd yr adran amrywiaeth.

| **Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** | |
|---|---|
| **Enw:** | Y Ditectif Arolygydd [redacted] |
| **Adran:** | Y Ganolfan Fregusrwydd |
| **Llofnod:** | [redacted] |
| **Dyddiad:** | 21/08/20 |

**DEDDF HAWLIAU DYNOL**

**TYSTYSGRIF CYDYMFFURFIAETH**

Cafodd y polisi hwn ei ddrafftio yn unol â'r Ddeddf Hawliau Dynol a'i adolygu ar sail ei gynnwys a'r dystiolaeth ategol, ac ystyrir ei fod yn cydymffurfio â'r Ddeddf honno a'r egwyddorion sy'n sail iddi.

| | |
|---|---|
| **Enw:** | [redacted] |
| **Adran:** | Gwasanaethau Cyfreithiol |
| **Llofnod:** | [redacted] |
| **Dyddiad:** | 24 Awst 2020 |

# 4. Dewisiadau a Chynlluniau Wrth Gefn

Perchennog y Polisi: Bydd y polisi hwn yn eiddo i Bennaeth yr Adran Diogelu Pobl Fregus. Bydd y polisi'n cael ei fonitro'n rheolaidd gan y Ganolfan Fregusrwydd am:

- Ei effeithiolrwydd
- Unrhyw newidiadau i reolau'r Swyddfa Gartref a chanllawiau'r llywodraeth
- Heriau i'r Polisi
- Unrhyw eitemau aneffeithlon mewn perthynas â gweithredu

**Y Broses Gymeradwyo:** Bydd unrhyw benderfyniadau cymeradwyo mewn perthynas â gweithredu'r polisi hwn yn cael eu gwneud gan Bennaeth yr Adran Diogelu Pobl Fregus a'r Grŵp Bregusrwydd Strategol.

Mae polisi'r heddlu'n llwyr adlewyrchu'r "Protocol ar y driniaeth briodol o droseddau stelcio neu aflonyddu rhwng Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron" a bydd canllawiau gweithredol yn cael eu dal ar safle mewnrwyd Heddlu Dyfed-Powys.

**Mae'r egwyddorion Cod Moeseg canlynol yn berthnasol ar gyfer y polisi hwn:**

- Atebolrwydd – Byddwn yn atebol am y penderfyniadau, camau a'r cyfaddefiadau a wneir mewn perthynas â gweithredu'r prosesau a'r gweithdrefnau o fewn y polisi.

- Tegwch – Bydd y polisi hwn yn cael ei weithredu heb ystyried hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu ryw.

- Gonestrwydd – Byddwn yn gweithredu'r prosesau a'r gweithdrefnau o fewn y polisi â gonestrwydd er mwyn cynnal ffydd y gymuned yr ydym yn ei gwasanaethu.

- Unplygrwydd – Byddwn yn gweithredu'r polisi hwn gan sicrhau ein bod yn gwneud ein gorau glas dros ddioddefwyr stelcio ac aflonyddu.

- Gwrthrychedd – Bydd gweithredu'r prosesau a'r gweithdrefnau o fewn y polisi a'r penderfyniadau a wneir yn seiliedig ar dystiolaeth a barn broffesiynol gorau.

- Didwylledd – Byddwn yn agored a thryloyw yn ein gweithredoedd a'n penderfyniadau.

- Parch – Byddwn yn trin pob aelod o'r gymuned â pharch.

- Anhunanoldeb – Byddwn yn gweithredu'n anhunanol ac er budd y cyhoedd.

## TYSTYSGRIF CYDYMFFURFIO

Mae'r polisi hwn wedi'i ddrafftio yn unol â'r Cod Moeseg ac wedi'i adolygu ar sail ei gynnwys a'r dystiolaeth ategol ac ystyrir ei fod yn cydymffurfio a'r Cod hwn a'r egwyddorion sy'n ei danategu.

| | |
|---|---|
| **Enw:** | Y Ditectif Arolygydd [redacted] |
| **Adran:** | Y Ganolfan Fregusrwydd |
| **Llofnod:** | [redacted] |
| **Dyddiad:** | 19/06/2020 |

# 5. Gweithredu ac Adolygu

Bydd ymchwiliadau stelcio ac aflonyddu'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Bydd pob galwad STORM sy'n ymwneud â stelcio ac aflonyddu'n cael ei hadolygu'n fyw gan swyddogion ar y Ddesg Fregusrwydd er mwyn sicrhau bod troseddau'n cael eu nodi a'u hymchwilio yn y lle cyntaf.

Adolygir negeseuon STORM cyn eu cau gan yr Uned Asesu Risg Eilaidd a bydd troseddau coll yn cael eu hamlygu a'u cofnodi.

Mae rhingyll ar ddyletswydd ac Arolygydd tiriogaeth yn gwirio safonau ymchwilio a byddant yn destun cyfarfodydd Perfformiad URS misol.

Mae'r Uned Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) yn cynnal arolygon dioddefwyr misol ar gyfer adborth Adroddir hyn wrth y Grŵp Llywio MARC a'r Bwrdd Rhanbarthol VAWDASV bob chwarter.

Bydd cwynion gan aelodau o'r cyhoedd i'r Adran Safonau Proffesiynol mewn perthynas â Stelcio ac Aflonyddu ar gyfer gorfodi'n cael eu hasesu yn erbyn y polisi Stelcio ac Aflonyddu.

**Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000**

Yn unol â Rhan 19 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 mae'n ofynnol i'r Heddlu gyhoeddi ei holl bolisïau ar wefan yr Heddlu. Polisïau sy'n dangos pam yr ydym yn gwneud pethau a gweithdrefnau sy'n dangos sut yr ydym yn eu gwneud. Rhaid cynnal adolygiad o'r gweithdrefnau fesul achos er mwyn diogelu ystyriaethau'n ymwneud â gorfodi'r gyfraith ac iechyd a diogelwch. Os cynhyrchir dogfen sy'n cyfuno polisi a gweithdrefnau, mae'n ofynnol o dan y gyfraith i'r Heddlu gyhoeddi'r polisi ac asesu'r rhan sy'n ymwneud â'r gweithdrefnau i sicrhau na chaiff unrhyw wybodaeth sensitif ei chyhoeddi. Yn gyffredinol, fel sefyllfa ddiofyn, cynhyrchir polisi a dogfen weithdrefn ar wahân.

Mae'n ofynnol felly i adolygu'r ddogfen hon er mwyn cadarnhau ei bod yn addas i'w chyhoeddi. Noder isod p'un ai yw'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd ai peidio. Os credir y gallai datgelu fod yn niweidiol, disgrifiwch y niwed y byddai'r cyhoeddi'n ei achosi gan amlygu'r rhannau perthnasol yn y ddogfen. Os tybir y gallai datgelu fod yn niweidiol dylid anfon y ddogfen i'r Uned Rhyddid Gwybodaeth i'w hadolygu.

**Addasrwydd ar gyfer cyhoeddi**

| **Addas i'w chyhoeddi** | **Ydyw/Nac ydyw** | **Dyddiad** | **Llofnod** |
|---|---|---|---|
| Dogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd | Ydyw | 24/08/20 | Y Ditectif Arolygydd [redacted] |
| Dogfen yn addas i'w chyhoeddi'n rhannol. Rwyf wedi amlygu'r rhannau y credaf nad ydynt yn addas i'w datgelu ac wedi disgrifio isod y niwed y byddai cyhoeddi yn ei achosi. | | | |
| **Niwed – mewn cyhoeddi** | | | |

**Adolygiad Rhyddid Gwybodaeth – i'w gwblhau gan yr Uned Ddatgelu**
(Dim ond os yw'r awdur yn credu bod niwed mewn cyhoeddi)

| **Addas i'w chyhoeddi** | **Ydyw/Nac ydyw** | **Dyddiad** | **Penderfynwr Rhyddid Gwybodaeth** |
|---|---|---|---|
| Dogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd | | | |
| Dogfen yn addas i'w cyhoeddi yn rhannol a gwnaed golygiadau perthnasol. Crëwyd fersiwn sy'n addas ar gyfer y cyhoedd. | | | |
| Ar ôl cwblhau'r adolygiad dylai'r penderfynwr Rhyddid Gwybodaeth ddychwelyd y ddogfen i awdur y polisi, ac ar ôl ei chymeradwyo a'i llofnodi, dylid ei chyhoeddi o fewn Cynllun Cyhoeddi'r Heddlu. Dylai unrhyw newidiadau pellach i'r ddogfen gael eu dwyn i sylw'r Uned Rhyddid Gwybodaeth, fel y bo'n addas. | | | |